Archwilio Cymru
Audit Wales

1 Cwr y Ddinas, Stryd Tyndall
Caerdydd / Cardiff
CF10 4BZ
Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660
post@archwilio.cymru / info@audit.wales
www.archwilo.cymru / www.audit.wales

Mr Duncan Hall
Cyngor Sir Ceredigion
Canolfan Rheidol
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3UE

**Cyfeirnod:** DO / JB
**Dyddiad cyhoeddi:** 8 Ionawr 2024

Annwyl Duncan,

## Ffurflen Flynyddol Tyfu Canolbarth Cymru 2022-23

Yn unol â gofynion Adran 12 ac Adran 13 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, rwy'n rhoi fy adroddiad ar Ffurflen Flynyddol Tyfu Canolbarth Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023.

Rwyf wedi ymgymryd â'n gwaith yn unol â'r gweithdrefnau penodedig a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Yn gryno, mae'r gweithdrefnau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ni ystyried a yw'r datganiad cyfrifon blynyddol:

- wedi eu paratoi ar sail resymol (er enghraifft, mae'r ffigurau'n cytuno i'r cofnodion gwaelodol y cawsant eu paratoi arnynt ac maent yn gyson â'r trafodiadau a gofnodwyd yng nghyfrifon statudol yr awdurdodau lleol cyfansoddol ar gyfer yr un cyfnod adrodd); ac
- yn castio’n gywir.

**Adroddiad archwilio ar y ffurflen flynyddol sy'n ymwneud â Thyfu Canolbarth Cymru am y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023:**

Yn amodol ar gymeradwyo ffurflen flynyddol 2022-23, byddwn yn gallu ardystio'r ffurflen flynyddol a chyhoeddi ein hysbysiad o gwblhau'r archwiliad a chadarnhau'r canlynol:

"Ar sail fy adolygiad, yn fy marn i, nid oes unrhyw faterion wedi dod i'm sylw gan roi achos dros bryderu, mewn unrhyw ffordd berthnasol, y wybodaeth a adroddwyd yn y Ffurflen Flynyddol hon:

- nad yw wedi'i baratoi yn unol ag arferion priodol;
- nad yw'r ddeddfwriaeth a'r gofynion rheoleiddiol perthnasol wedi'u bodloni;
- nad yw'n gyson â threfniadau llywodraethu'r Pwyllgor; a
- nad oes gan y Pwyllgor drefniadau priodol ar waith i sicrhau economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau'

**Materion eraill**

Nid oes gennym unrhyw faterion eraill y mae'n rhaid i ni eu dwyn i'ch sylw.

Yn gywir



**Derwyn Owen**

**ar gyfer ac ar ran Adrian Crompton, Archwilydd Cyffredinol Cymru**